# Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau), Ionawr 2023

See all updates
Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau), Ionawr 2023.

Rydym yn dobarthu'r Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Bwriad y gronfa yw gwella cyflwr a gwydnwch rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig a chefnogi cymunedau o amgylch y safleoedd gwarchodedig i gymryd rhan mewn cadwraeth natur. Rydym wedi dyrannu grantiau yn amrywio rhwng £87,600 a £249,999 i 17 prosiect.

## Ledled Cymru

### Yr RSPB – Bioddiogelwch i Gymru

Grant: £249,713

Prif ffocws y prosiect yw atal sefydlu ysglyfaethwyr mamaliaid anfrodorol megis llygod mawr sy'n gallu ysglyfaethu ar adar môr sy'n nythu ar y ddaear mewn ystod eang o safleoedd adar môr ar hyd arfordir Cymru.

Bydd yn gwella arferion bioddiogelwch yn y gwaith o reoli ynysoedd adar môr o ddydd i ddydd ac yn darparu hyfforddiant a chymorth i staff, gweithredwyr cychod, harbwrfeistri a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth bioddiogelwch. Bydd y prosiect hefyd yn cynnal cronfa ddata bioddiogelwch genedlaethol.

## Gogledd Cymru

### Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod – Gobaith Coetir: ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionydd Dyffryn Ffestiniog

Grant: £227,603

Gyda phob un o’r 15 rhywogaeth o ystlum a geir yng Nghymru yn defnyddio coetiroedd ar gyfer clwydo, chwilota am fwyd a chymudo, mae coetiroedd yn ddangosyddion ardderchog o iechyd y boblogaeth ystlumod

Bydd y grant yn ariannu arolwg o goetiroedd SoDdGA yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn Nyffryn Ffestiniog i fesur amrywiaeth a lefelau

gweithgaredd ystlumod yno. Bydd hefyd yn annog defnydd cyhoeddus o goetiroedd i bontio'r bwlch rhwng cymunedau lleol a'u treftadaeth coetir.

## Tir Gwyllt - Rhwydweithiau Madfall

Grant: £249,576

Bydd y prosiect yn gweithredu yn ardaloedd Johnstown, Bwcle, Cei Connah a Llanelwy yng ngogledd ddwyrain Cymru. Bydd Tir Gwyllt yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint a Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) i wella cyflwr nifer o safleoedd dynodedig yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych gan ganolbwyntio ar gynefin pyllau a gwlyptir a rhywogaethau amffibiaid.

Bydd y prosiect yn gweld pyllau'n cael eu creu a'u hadfer, yn clirio prysgwydd a bydd llwybrau troed a choridorau bywyd gwyllt yn cael eu creu ar draws naw safle a chyfres o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal yn ystod hafau 2023 a 2024.

## Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – 'Atal Estroniaid Rhag Ennill Tir'

Grant: £249,999

Mae'r prosiect yn cwmpasu'r Afon Dyfrdwy rhwng y Bala a Llangollen. Erbyn 2025, nod y prosiect yw lleihau nifer y planhigion ymledol ar hyd darn 30km o lan yr afon yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig hon a gwella ei chyflwr cyffredinol. I wneud hyn, bydd staff a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn cynnal arolygon i gael dealltwriaeth lawn o ba mor eang yw planhigion anfrodorol yn yr ardal a chynyddu ymwybyddiaeth o dreftadaeth naturiol ACA Afon Dyfrdwy.

## Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru –'Adfer Glaswelltir Calchfaen'

Grant: £249,999

Bwriad y prosiect hwn yw reoli lledaeniad planhigion creigafal sydd yn gallu bod yn fygythiad i lystyfiant brodorol. Mae'n gweithio dros bum safle gwarchodedig:

- Y Gogarth yn Llanduno;
- Comin Helygain a glaswelltiroedd Treffynnon;
- Coedwigoedd calchfaen Llanddulas a choedwigoedd Castell Gwrych;
- Moel Hiraddug a Bryn Gop
- Mynydd Marian yng Nghonwy

Bydd teithiau cerdded tywysedig ac arwyddion am y gwaith fel y gall y cymunedau lleol ymgysylltu â'u treftadaeth naturiol a dysgu amdani.

## Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru– 'Byw gydag Afancod'

Grant: £249,545

Mae nifer bach o afancod yn byw yn wyllt yn yr ardal yn barod, ond bwriad y prosiect hwn yw ailsefydlu afancod fel ychwanegiad gwerthfawr a chroesawgar i ddalgylch Dyfi fel bod eu sgiliau peirianneg ecosystem yn gallu adfer, gwella a chynnal treftadaeth yr ardal.

Bydd yn gweithio i sicrhau bod buddion afancod yn cael eu mwynhau a'u hannog tra bod effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi neu eu lleihau trwy fonitro a rheolaeth ar effaith afancod. Mae rhyddhau afancod yn amodol ar dderbyn trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Y Gymdeithas Cadwraeth Forol – 'Llythrennedd y Môr'

Grant: £244,000

Bydd y prosiect yn cysylltu pobl â'n cefnforoedd drwy ymgysylltu â'r gymuned a rheoli safleoedd gwarchodedig. Bydd yn ysbrydoli cymunedau lleol i ofalu am y cefnforoedd a'u grymuso i weithredu i'w warchod trwy weithgareddau fel glanhau traethau ac arolygon sbwriel.

Bydd hyn yn cyfrannu at reolaeth gynaliadwy AGA Bae Lerpwl/Bae Lerpwl a'r amgylchedd morol ehangach ac yn darparu tystiolaeth i lywio camau cadwraeth ymarferol ac ysgogi newid deddfwriaethol ar gyfer amgylcheddau morol Cymru.

### Cymdeithas S?olegol Llundain a Phrifysgol Bangor – 'Adfer Wystrys Gwyllt'

Grant: £249,919

Bydd y prosiect dwy flynedd yn cyflwyno wystrys brodorol Ewropeaidd ar safleoedd gwarchodedig AGA Bae Lerpwl ac ACA Afon Menai a Bae Conwy. Trwy wneud hynny mae'n anelu at afar cynefin wystrys brodorol Ewropeaidd a'r gymuned fioamrywiol o organebau cysylltiedig a threftadaeth ddiwylliannol leol a chyfrannu at adferiad cefnforol.

Bydd ail-greu'r cynefin coll hwn yn rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol – ysgolion, prifysgolion a thrigolion, gysylltu â'u treftadaeth arfordirol drwy addysg a gwyddoniaeth dinasyddion.

### Coetir Anian – Cysylltiadau Natur

Grant: £249,995

Wedi'i leoli yng Nglaspwll y tu allan i Fachynlleth, nod y prosiect adfer natur yw adfer cynefinoedd a gwella cysylltedd rhwng pedwar safle yn nalgylchoedd uchaf llednentydd Llyfnant, Melindwr ac Einion yn Afon Dyfi. Bydd mwy o orchudd coed ym Mwlch Corog a Phemprys gerllaw yn gwella cysylltedd cynefinoedd rhwng ACA coetir Cwm Einion a SoDdGA coetir Cwm Llyfnant.

Bydd adfer mawndir diraddiedig hefyd yn adfer rhostir yr ucheldir a gorgors i gysylltu dau SoDdGA a ddynodwyd ar gyfer y cynefinoedd hyn - Pencreigiau'r Llan a Phen Carreg Gopa a Moel Hyrddod.

## Canolbarth Cymru

### Aberaeron Conservation Ltd – Coed Gwasanaeth Gwyllt

Grant: £87,600

Prosiect i warchod, gwella a galluogi ehangu SoDdGA coetir Coed Allt Craig Arth ger Aberaeron. Yn rhedeg am ddwy flynedd, ei nod cyffredinol yw gwneud y coetir yn fwy gwydn i newid hinsawdd a gwella ei Statws Cadwraeth Ffafriol fel ei fod yn ffynnu ac yn parhau i ffynnu i'r dyfodol. Ar ôl ei gwblhau, bydd y prosiect wedi creu gofod unigryw ar gyfer pobl a bywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth a fydd yn cadw ac yn adfer cynefinoedd a rhywogaethau sy'n unigryw i Geredigion.

# Gorllewin Cymru

## Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn - Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin

Grant: £222,272

Mae Sir Gaerfyrddin yn dirwedd flaenoriaeth ar gyfer cacwn prin a datblygwyd y prosiect hwn i helpu rhywogaethau di-asgwrn-cefn i deithio rhwng rhwydwaith gwerthfawr arfordir Sir Gaerfyrddin o safleoedd gwarchodedig. Bydd y gwaith yn cynnwys cynnal arolygon cynhwysfawr i roi darlun cywir o boblogaethau a chynefinoedd ar gyfer rhywogaethau cacwn targed.

I wneud y mwyaf o effaith y prosiect ar fyd natur, bydd hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i arolygu rhywogaethau o bryfed sydd dan fygythiad, fel gwenyn unigol, gloÿnnod byw a chwilod. Bydd swyddog prosiect yn cael ei gyflogi i gynnal arolygon o gacwn ar safleoedd blaenoriaeth.

## Fferm Trychfilod Dr Beynon Cyf – 'Adferiad Natur'

Grant: £211,624

Nod y prosiect yw llenwi'r bylchau yn y coridor cynefin tameidiog ar draws Penrhyn Tyddewi er mwyn cryfhau ei rwydwaith o dir gwarchodedig. Bydd cysylltu cynefinoedd fel safleoedd clwydo a nythu yn helpu rhywogaethau fel yr ystlum pedol mwyaf prin ac yn cynorthwyo adferiad byd natur a bydd y prosiect yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i dreialu'r defnydd o ysgolion amffibiaid mewn draeniau gylïau ffordd. Bydd datblygu Canolfan Adfer Natur yn annog ymgysylltiad cymunedol â'r prosiect.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Coast National Park Authority – Pwyth mewn pryd/Stitch in time

Grant: £170,193

Pwrpas yr prosiect hwn y dileu a rheoli lledaeniad rhywogaethau ymledol anfrodorol. Bydd yn targedu ffromlys chwarennog a chanclwm Japan mewn afonydd yn y parc cenedlaethol mewn chwe ardal:

- SoDdGA Cors Castellmartin;
- SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau;
- SoDdGA Aberarth Carreg Wylan;
- ACA Preseli ac ACA Afonydd Cleddau;

- ACA Preseli ac ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro;
- ACA Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro ac ACA Tyddewi.

Bydd cydlynydd prosiect yn cael ei gyflogi i arwain a chydlynu gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, contractwyr, staff a thirfeddianwyr.

# De Cymru

## Ymddiriedolaeth Natur Gwent Cyf – ‘Cysylltu Natur, Cysylltu Cymunedau’

Grant: £248,834

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar 11 gwarchodfa natur sy'n cynnal cynefinoedd gan gynnwys coetir hynafol, gweirgloddiau traddodiadol a rhywogaethau eraill. Mae'r ardal yn cynnwys naw SoDdGA, un ACA, un AGA a 2 Safle Bywyd Gwyllt Lleol (LWS) sy'n gorchuddio dros 400 hectar a bydd y prosiect yn gwella cyflwr ecolegol y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig ledled Gwent.

Mae'r safleoedd hyn i gyd yn hanfodol i sicrhau bod rhywogaethau'n ffynnu ac o yn cynnal tirwedd sy'n wydn yn ecolegol a bydd y prosiect hefyd yn galluogi mwy o gymunedau i ddarganfod a chefnogi'r natur ar garreg eu drws.

## Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru - ‘Glaswelltiroedd Iach, Gwydn’

Grant: £249,565

Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yn gynefin dan fygythiad sydd i’w gael yn bennaf yng nghefn gwlad ffermio ac fel arfer yn cael ei bori gan dda byw ac yn gysylltiedig â defnydd isel iawn o wrtaith synthetig. Mae'r prosiect hwn yn ceisio gwrthdroi colli'r cynefinoedd hyn trwy well rheolaeth ac ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd a bydd yn gweithio ar draws 11 o safleoedd gwarchodedig fel y gellir cyflwyno pori. Bydd yn creu rhwydwaith gwell o laswelltiroedd o ansawdd uchel ac yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau sy’n byw mewn glaswelltiroedd.

## Ymddiriedolwyr Ystâd Merthyr Mawr – ‘Ailgysylltu Natur’

Grant: £120,731

Mae’r twyni tywod ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Warchodfa Natur Genedlaethol, yn system dwyni bwysig ac yn gartref i rai o rywogaethau planhigion ac adar prinnaf Cymru. Bydd y prosiect hwn yn cysylltu'r ystâd gyfan â'r warchodfa natur ac yn cael gwared ar rywogaethau anfrodorol er mwyn annog cynefinoedd tywod noeth sy'n hanfodol i oroesiad planhigion gan gynnwys llysiau'r afu sy'n nodweddion pwysig o'r ACA. Bydd hefyd yn gwarchod presenoldeb adar fel y pibydd y gylfinir, yr afoced a'r pibydd piws.

## Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru - ‘Adfer SoDdGA Cwm Elái’

Grant: £248,314

Wedi'i leoli yng Nghwm Elái, bydd y prosiect yn cwmpasu'r darn o afon rhwng Sain Ffagan a Meisgyn, sy'n SoDdGA a'r 'orsaf orau yng Nghymru ar gyfer Aconitum anglicum' (Cwcwll y mynach). Mae'r safle hefyd yn goridor hanfodol ar gyfer rhywogaethau eraill a warchodir gan gynnwys y dyfrgi Ewropeaidd; llygoden y d?r; llysywen bendoll yr afon; llysywen bendoll y môr ac eog yr Iwerydd. Fodd bynnag, mae bodolaeth rhywogaethau a gwytnwch y safle yn cael eu bygwth gan faterion fel gor-bori gan wartheg, colli gorchudd coed a chysgod ac effeithiau rhywogaethau ymledol.